This document is available in English. / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

# GWEITHDREFN AR GYFER ADRODD PRYDERON YNGLŶN Â MYFYRWYR WEDI ÔL-GOFRESTRU AR GYRSIAU NAD YDYNT YN ARWAIN AT ANODIAD / COFRESTRU PELLACH

1. Dylid defnyddio'r Weithdrefn hon lle na ellir cymhwyso Adran 4 o Reoliadau Camymddygiad Myfyrwyr ac Addasrwydd i Ymafer gan fod y myfyriwr wedi ôl-gofrestru ac nid ar gwrs sy'n arwain at anodiad/cofrestru pellach, ond honnir iddo gyflawni gweithred o gamymddwyn, neu os oes gan aelodau staff bryderon ynghylch ei weithredoedd neu ei ymddygiad.

2. Os oes gan aelod o staff bryderon ynghylch gweithredoedd neu ymddygiad myfyriwr cofrestredig, dylai roi gwybod am y rhain i Bennaeth Pwnc cwrs y myfyriwr.

3. Dylai Pennaeth y Pwnc roi gwybod am unrhyw gamymddwyn a amheuir drwy Ffurflen Honiad o Gamymddwyn a'i hanfon i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr. Bydd yr achos yn cael ei symud ymlaen gan gyfeirio at y Weithdrefn ar gyfer Cam 1: Camymddwyn Llai Difrifol a/neu'r Weithdrefn ar gyfer Cam 2: Ymchwiliadau i Gamymddygiad Myfyrwyr ac Addasrwydd i Ymarfer a/neu'r Weithdrefn ar gyfer Cam 2: Gwrandawiadau;r Pwyllgor.

4. Ar ôl cyrraedd canlyniad, naill ai ar lefel y gyfadran neu ar lefel y brifysgol, bydd y cofrestrydd uchaf o fewn y gyfadran yn rhoi gwybod am y canlyniad i'r corff statudol/proffesiynol perthnasol. Lle bo'n briodol, bydd cyflogwr y myfyriwr hefyd yn cael gwybod.